

CYNLLUN GWERS CALCH			
Pwnc	Uned	Gwers	Cyfnod Allweddol
Hanes	1	Pwy oedd David Davies?	CA2/3
<p>Amcanion: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwysigrwydd calch yn y gymuned leol ar yr adeg honno • Beth ddigwyddodd i David Davies a pham roedd yn y chwarel • A chofiwch fod yna gofeb i David Davies ar y Mynydd Du o hyd, yn ymyl olion y chwareli 			
<p>Geiriau allweddol: calchfaen, chwareli, perygl, cofeb</p>			
<p>Cyflwyniad/ISM: Delwedd o'r garreg fedd.</p> <p>Cyflwyniad byr i'r wers yn dilyn y PowerPoint, gan ddechrau gyda gwybodaeth gyfyngedig ar David Davies a'i farwolaeth.</p> <p>Dangoswch lun ar y PowerPoint o'r fan lle bu farw David Davies a gofynnwch i'r dosbarth pa gwestiynau eraill y mae arnon ni angen ateb iddyn nhw. Gwnewch nodyn o'r cwestiynau hyn ar y bwrdd gwyn i'r dosbarth eu gweld.</p>			<p>Amseru (Yn seiliedig ar 60 mun)</p> <p>5 mun</p>
<p>Prif ran:</p> <p>Rhannwch y dosbarth yn 6 grŵp (lleiafswm o 3 mewn grŵp), a rhowch rif i bob grŵp. Dosbarthwch becynnau adnoddau a thaflen o bapur A3.</p> <p>Mae gan y disgyblion 5 munud i ddarllen y ffynonellau a gwneud nodiadau o'r pwyntiau allweddol ynddyn nhw.</p> <p>Gan symud ymlaen yn gyflym, rhaid i bob grŵp ddewis dau ddisgybl i symud i grŵp arall i gael mwy o wybodaeth. Bydd un disgybl yn dewis pa grŵp i symud iddo a bydd y llall yn ymweld â grŵp arall. Mae gan y ddau ddisgybl 5 munud i ddarganfod cymaint o wybodaeth â phosibl gan y grŵp maen nhw wedi mynd ato, a hynny heb allu gweld adnoddau'r grŵp hwnnw na'u taflen A3. Rhaid i'r aelodau sydd ar ôl ym mhob grŵp rannu gwybodaeth â disgyblion sy'n ymweld o grwpiau eraill.</p> <p>Bydd yr aelodau fu'n ymweld yn dychwelyd at eu grwpiau ac yn trosglwyddo'r wybodaeth a ddysgwyd ganddyn nhw er mwyn ychwanegu pwyntiau allweddol i'w taflen A3. Mae gan bob grŵp 10 munud i goladu'r wybodaeth a pharatoi i roi cyflwyniad byr o ryw 3-5 munud (yn dibynnu ar nifer y grwpiau a nifer aelodau'r grwpiau) i'r dosbarth ar beth ddigwyddodd i David Davies, gan ateb cymaint o'r cwestiynau sydd ar y bwrdd gwyn â phosibl.</p> <p>Cyflwyniadau'r dosbarth: gall pob grŵp ddefnyddio'i ffynonellau a'r daflen A3 i siarad am David Davies a'i farwolaeth gynamserol.</p>			<p>5 mun</p> <p>5 mun</p> <p>5 mun</p> <p>10 mun</p> <p>25 mun</p>
<p>Sesiwn lawn:</p> <p>Casgliad cryno ar pam roedd David Davies yn y chwarel, a'r ffaith fod y siwrnai yr aeth arni i gyrraedd yno yn dangos pwysigrwydd calch yn y gymuned. Er ein bod ni heddiw yn defnyddio dulliau gwahanol o sicrhau ffrwythlondeb tir, roedd yr ardal yn bwysig iawn i ffermwyr yn 1884 ac wedi hynny. Ewch i www.calch.org.uk i ddysgu mwy am yr ardal.</p>			<p>2-5 mun</p>

Gwahaniaethu: Dylai disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gael cymorth yn ystod y wers hon os bydd angen.

Aesu: Ar ffurf cyflwyniadau gan y grwpiau ar eu casgliadau eu hunain am farwolaeth David Davies.

Adnoddau: pecynnau ffynonellau ar gyfer pob grŵp, cyflwyniad PowerPoint, papur A3

Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:

Llythrennedd – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp*
- *Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw*
- *Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol*
- *Coladu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol*
- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol*

Rhifedd – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau*